# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 22AIN MEHEFIN, 2026**

Lleoliad

**Virtual Meeting**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 15 Mehefin 2026)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Gwilym Evans

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Arwyn Herald Roberts
Elfed Williams
Meryl Roberts

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
Anwen J. Davies
Hefin Underwood

Angela Russell
John Brynmor Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd Mawrth y 9fed 2026 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 5 - 7

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:

a) 10-02-2026

## 8. PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU  TACSI HACNI 8 - 20

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo cynnig gan y diwydiant i godi'r uchafswm prisiau

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 09-03-2026**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Meryl Roberts, Hefin Underwood a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Andrew Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Jac Evans (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Arwyn Herald Roberts ac Angela Russell

Y Cynghorydd Anwen Davies wedi methu a ymuno oherwydd problemau technegol

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 1af o Ragfyr 2025 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 5ed o Dachwedd 2025

Dechreuodd y cyfarfod am 10.25am a daeth i ben am 10:30am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 10-02-2026**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Gwynfor Owen (Cadeirydd), Gwilym Evans a Huw Rowlands

**Swyddogion**: Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Rhian Meredith (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu), Nicola Williams (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Eitem 5: Ymgeisydd Ms A

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Ms A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais gan Ms A i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sy'n gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat.

Yn unol â Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr, roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd yr ymgeisydd wedi amlygu manylion y troseddau i'r Uned Trwyddedu, nododd y Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu nad oedd gwybodaeth wedi ei ddatgan iddynt ac nid oedd y manylion wedi eu cynnwys ar y ffurflen gais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y tri achlysur y derbyniodd y pwyntiau cosb, a'i amgylchiadau personol. Yn dilyn derbyn y pwyntiau cosb, amlygodd iddi wneud apwyntiad gyda'r optegydd lle canfuwyd bod ganddi nam ar ei llygaid. O ganlyniad, fe'i cynghorwyd i wisgo sbectol briodol ar gyfer gyrru yn y tywyllwch. Ategodd nad oedd wedi derbyn pwyntiau cosb ers Gorffennaf 2024. Nododd nad oedd wedi datgelu'r pwyntiau cosb ar ei chais gan mai ei Chyflogwr oedd wedi cwblhau'r ffurflen ar ei rhan. Derbyniodd ddifrifoldeb y sefyllfa, petai yn colli ei thrwydded, byddai yn colli ei gwaith.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- DBS yr ymgeisydd – dim cofnod o gollfarnau
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Ym mis Rhagfyr 2023 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb (SP30) am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus

Ym mis Gorffennaf 2024 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb (SP30) am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus

Ym mis Gorffennaf 2024 derbyniodd yr ymgeisydd 5 pwynt cosb (SP30) arall am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus a dirwy o £200 yn Llys Ynadon Gogledd Ddwyrain Cymru

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd

ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi gyda pharagraff 13.1 yn diffinio 'man drosedd traffig fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ystyriwyd paragraff 13.3 sy'n datgan y "Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae'n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio / ei chyfeirio at sylw Is-bwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar y drwydded.

**CASGLIADAU**

Derbyniodd yr Is-bwyllgor bod gan yr ymgeisydd dair trosedd o oryrru o fewn ychydig dros 8 mis i'w gilydd, a cafwyd eglurhad am bob un o'r digwyddiadau goryrru, eu lleoliadau a'u hamseroedd (gyda'r nos).

Yn unol â'r Polisi, gallai mwy nag un gollfarn ar gyfer mân drosedd draffig, yn enwedig os oes patrwm i'r ymddygiad, arwain at wrthod trwydded. Ar ôl pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus, gan gydnabod bod yr ymgeisydd wedi dangos edifeirwch am y troseddau, penderfyniad yr Is bwyllgor oedd bod tri achos o oryrru yn amlygu patrwm ac felly nid oeddynt wedi eu darbwyllo ei bod yn cyrraedd safonau disgwyliedig gyrrwr tacsi.

Bu i'r Is-bwyllgor bwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol gan ystyried amgylchiadau a sylwadau'r ymgeisydd ynglŷn â'r troseddau gyrru. Er yn derbyn eglurhad yr ymgeisydd am y nam ar ei llygad, roedd yr Is-bwyllgor yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn â'r nifer pwyntiau ar y drwydded - y nifer yn sylweddol o ystyried y cyfnod amser dan sylw. Yn ychwanegol, roedd yr Is-bwyllgor yn siomedig nad oedd y troseddau wedi eu datgan ar y ffurflen gais. Gwerthfawrogodd yr Is-bwyllgor ei chyfrif gonest o'r amgylchiadau a'r atebion a gyflwynwyd i'r cwestiynau. Fodd bynnag, o ystyried bod lefel y pwyntiau cosb yn sylweddol uchel, byddai rhoi trwydded dan yr amgylchiadau yn groes i'r polisi.

Yn unol â Dogfen y Sefydliad Trwyddedu mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor fodloni eu hunain bod yr ymgeisydd wedi amlygu ei hun i fod yn berson cyfrifol, addas a phriodol i ddal trwydded. Yn yr achos yma, ar sail tebygolrwydd, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y gallent fod yn hyderus fod yr ymgeisydd yn cyrraedd safonau gyrrwr tacsi.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio'r penderfyniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00 a daeth i ben 10 :40

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **22 MEHEFIN 2026** |
| **TEITL:** | **PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI** |
| **PWRPAS:** | **CYMERADWYO CYNNIG GAN Y DIWYDIANT I GODI'R UCHAFSWM PRISIAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir . Mae'r ddeddf yn gorfodi darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd.

1.2 Mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchafbris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe dderbyniwyd 3 cais yn ddiweddar gan Mr Chris O' Neal a Mr Mark Davies ac Mr Mark Dunning sydd berchnogion cwmnïau tacsi - i adolygu'r prisiau.
Fe yrrwyd cynnig manwl gan Mr Chris O'Neal yn unig ac roedd yn cyflwyno'r cynnig ar ran y cwmni, Network Cars. Gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn am gopïau llawn o'r cynigion a'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan y diwydiant .

1.3 Nid yw'r uchafbris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.

1.4 Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu'r uchafbris yn 2019 ac yn ddiweddarach yn 2022 , ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o'r uchafbrisiau presennol. Fe gynyddwyd yr uchafbris am y ddwy filltir gyntaf taith tacsi o £5 i £6 yn 2019; sydd yn gynnydd sylweddol oedd yn adlewyrch cyfartaledd costau chwyddiant dros y cyfnod. Nid oes cynnydd wedi bod yn y cyfraddau sylfaenol un a dwy filltir cyntaf taith ers hynny.

1.5 Fe gytunodd y Pwyllgor hwn i godi cyfraddau atodol eraill yn 2022 yn hytrach na chodi y gyfradd sylfaenol un a dwy filltir fel a ganlyn –

| Tabl 1 - CYNNYDD PRISIAU TACSI A GYMERADWYWYD 2022 |
|---|
| Cadw cyfradd uchafbris taith un filltir a thaith dwy filltir (a mwy) yr un fath. Roedd y pris a godir ar y pryd o gwmpas y cyfartaledd wrth gymharu gyda Cynghorau eraill y Gogledd, ac y byddai cynyddu'r cyfraddau sylfaenol ar gyfer teithiau byr yn anfanteisio y mwyaf anghenus yn y gymdeithas |
| Cynyddu uchafbris cludo bagiau ychwanegol yng nghist car o 30c yr eitem i 50c yr eitem |
| Cynyddu cost valet glanhau o £45 i £120 i adlewyrchu costau glanhau proffesiynol cyfredol, ac yr amser nad yw y cerbyd ar gael i'w hurio. |
| Cynyddu cost cyfradd hurio tacsi rhwng 00:00 a 07:00 o 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol i 60% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol o £4.50 i £4.80 y filltir. |
| Creu 'tariff' newydd ar gyfer teithiau bws mini ar gyfer rhwng 5 ac 8 teithiwr - i £6.60 am siwrnai mwy na 2 filltir |

## 2 FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR GOSTAU BUSNESAU TACSI

2.1 Mae busnesau bach a canolig sydd yn cyflogi gweithwyr wedi wynebu cynnydd mewn costau megis yswiriant cenedlaethol ac cynnydd yn y isafswm cyflog cyfradd dros y blynyddoedd diwethaf – ac mae hyn wedi tanseilio gallu busnesau bach fel cwmnïau tacsi i wneud proffid.

2.2 Mae'r sefyllfa economaidd yn y wlad dros y misoedd diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd , yn enwedig Diesel oherwydd y rhyfel yn Iran. Mae'r rhagolygon yn nodi na fydd costau tanwydd yn gostwng yn y dyfodol agos ac mae cynnydd sylweddol arall ar y gorwel mewn costau nwy a thrydan fydd yn effeithio ar bawb.

2.3 Noder fod cyfradd chwyddiant yn parhau i fod yn uwch na tharged 2% y Llywodraeth. Er fod cyfradd chwyddiant wedi gostwng yn ddiweddar; mae'r cynnydd mewn costau tanwydd a ffactorau geo-wleidyddol yn y Dwyrain Canol yn golygu fod chwyddiant a chostau bwyd sylfaenol yn debygol o godi dros y misoedd nesaf.

2.4 Mae costau yswiriant priodol ar gyfer cerbydau trwyddedig yn uchel, ac wrth gwrs mae costau blynyddol ynghlwm a thrwyddedu cerbyd tacsi, a chostau bob tair blynedd ynghlwm a thrwyddedu gyrwyr.

## 3. CYNNIG Y DIWYDIANT AR GYFER UCHAFBRIS NEWYDD AR GYFER TEITHIAU CERBYD HACNI

3.1 Mae llawer o gynghorau wedi bod yn derbyn cynigion pendant yn ddiweddar gan y diwydiant tacsi i adolygu a chynyddu'r uchafbris mewn amrywiol ffyrdd. Mae yna gyfradd uchafbris penodol ar gyfer elfennau gwahanol; gan gynnwys cyfradd am daith 1 milltir a chyfradd gyffredinol lle mae taith yn 2 filltir neu fwy. Fe welir o'r tabl isod yr uchafbris sydd yn cael ei weithredu ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni dros siroedd cyfagos ar hyn o bryd , ac fe nodir os yw'r uchaf brisiau wedi bod yn destun adolygiad ar hyn o bryd .

**Tabl 2 – pris cyfatebol cyfredol am yr un filltir cyntaf o daith**

| | **Gwynedd cyfredol** | **Môn** | **Conwy** | **Powys** | **Dinbych** | **Ceredigion** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £3.60 | £3.50 | £4.00 | £4.00 | £4.00 | £3.50 |
| Blwyddyn adolygu | 2022 | 2017 | 2022 Cynnydd | 2022 Aros yr un fath | Argymhelliad | Ymgynghoriad ar argymhelliad i gynyddu i £4.00 |

3.3 Yn gyffredinol ar draws Gymru - mae y siroedd mwyaf gwledig yn codi rhwng £3 a £4 am y filltir cyntaf, gyda ambell i sir Trefol yn y De yn codi rhwng £5 a £6 . Noder fod y rhan fwyaf o siroedd yn codi rhwng £4 a £5 am y filltir cyntaf

3.4 Mae amryw o'r cwmnïau sydd wedi cyflwyno cynnig i godi uchafbris yn cynnig cynyddu'r gyfradd am y filltir gyntaf o £3.60 i £4.00.

Fe ofynnodd sawl un yn y diwydiant i gael codi cyfradd y filltir cyntaf yn 2022 , ond oherwydd y pryder fod unigolion bregus yn dueddol o fod yn ddibynnol ar deithiau byr lleol mewn tacsi , fe benderfynwyd codi cyfraddau eraill fel sydd wedi nodi yn nhabl un uchod . Mae'r cynnig i godi mwy am deithiau byr yn ddealladwy; gan fod costau sy'n gysylltiedig a cerbyd a'r gyrrwr yn uwch ar gyfer siwrnai byr .

3.3 Mae'r pobl sydd yn defnyddio tacsis yn ystod y dydd ar gyfer siwrnai byr yn fwy tebygol o fod yn methu defnyddio ffyrdd eraill o deithio , ac yn bobl sydd yn fwy tebygol o fod yn oedrannus neu yn fregus. Mae'n rhaid fod yn hynod ofalus wrth bwyso a mesur buddion codi prisiau tacsi i'r diwydiant , yn erbyn yr anfanteision sydd yn codi drwy gyflwyno mesurau sydd yn debygol o gael effaith ar garfan o'r gymdeithas sydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan gynnydd mewn costau byw .

3.4 Mae y cwmnïau tacsi yn gwneud y pwynt fod cyfraddau isafswm cyflogau wedi codi; yn ogystal a chostau cynnal a chadw cerbydau. Noder nad yw costau bellach yn cael eu hadennill drwy codi £3.60 am y filltir cyntaf, ac mae un cwmni yn gofyn am gael codi y gyfradd ar gyfer yr ail filltir mewn taith cerbyd hacni yn ogystal a'r milltiroedd dilynol.

3.5 Mae un cwmni yn nodi na fydd cwmnïau tacsis mewn ardaloedd gwledig yn gallu goroesi heb fod hawl i godi mwy am deithiau tacsi. Fe fyddai llai o gwmnïau tacsi mewn ardal wledig lle mae darpariaeth tacsis eisoes yn wan, yn creu mwy o anghydraddoldebau o safbwynt mynediad at wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

3.6 Mae rhai sydd wedi cyflwyno cynigion o'r diwydiant hefyd yn awgrymu y dylid edrych yn ofalus ar yr uchafbrisiau mewn perthynas a newid y cyfnodau ' tariffs' hwyr yn y nos, gan gychwyn y tariff hwyr ynghynt gyda'r nos , gan fod llawer o deithiau sydd yn gysylltiedig ac economi hwyr y nos yn rai dewisol.

3.7 Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i gwmni tacsi godi'r uchafbris am deithiau mewn cerbyd hacni. Mae llawer o gwmnïau yn dewis peidio; ac yn codi prisiau sydd yn is ac yn unol â'r hyn a ystyrir i fod yn gyfradd cystadleuol.

## 4. CYNNIG YR AWDURDOD TRWYDDEDU

4.1 O ystyried y ffactorau oll sydd yn bwysig i'r cyd-destun economaidd presenol - cynigir fod y prisiau yn cael eu cynyddu fel a ganlyn -

- Cynyddu uchafbris cyfradd taith un filltir o £3.60 i £4.00 er mwyn fod yn gyson gyda amryw o gynghorau eraill er mwyn cyfarch cynnydd mewn costau rhedeg tacsi.
- Cynyddu oriau gweithredol tariff hwyr y nos i fod yn weithredol o 21:00 yr hwyr tan 07:00 y bore , yn hytrach na bod yn weithredol o 00:00 hanner nos.
- Gostwng cyfradd cost teithiau tariff hwyr o 60% uwch na'r gyfradd sylfaenol yn ôl i 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol er mwyn cyd – fynd yn gyffredinol gyda cynghorau eraill.

**Tabl 3 - cymharu newidiadau arfaethedig gyda'r sefyllfa bresennol**

| **Uchafbris perthnasol** | **Cyfraddau presennol ers 2022** | **Argymhelliad 2026** |
|---|---|---|
| | | |
| lle mae'r daith yn llai na milltir | £3.60 | **£4.00** |
| Lle mae'r daith yn fwy na milltir, am y filltir gyntaf | £3.00 | Dim newid |
| Creu 'tariff' ychwanegol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr | £3.30 | £3.30 |
| Uchafbris cludo bagiau ychwanegol yn cist y cerbyd | 50c | 50c |
| Uchafbris cost 'valet' glanhau proffesiynol | £120 | £120 |
| Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan | 60% yn ychwanegol ar y gyfradd sylfaenol £4.80 | 50% yn ychwanegol i'r cyfradd sylfaenol £4.50 , **ond cyfradd yn weithredol o 9pm yn hytrach na hanner nos** |

5. **YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT**

4.1 Os fydd y Pwyllgor hwn yn derbyn yr argymhelliad; fe fyddwn yn ymgynghori ar y cynnig am 14 diwrnod mewn papur lleol; gyda'r bwriad fod yr uchafbris newydd yn weithredol o'r dyddiad bydd y rhybudd yn dod i ben.

4.2 Os oes gwrthwynebiad i'r cynnig yn dod i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad; fe fydd yr argymhelliad yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn i sail y gwrthwynebiad dderbyn ystyriaeth; ac ni fydd yn dod yn weithredol hyd nes y ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor .

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchafbris yn unol â'r argymhellion; neu yn cynnig cymeradwyaeth ar gyfer opsiynau eraill o godi uchafbris, ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni trwyddedig yn y Sir.

Yn unol ag adran 65 o'r Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – mae Cyngor Gwynedd yn cyhoeddi y bwriad i amrywio prisiau cludo ar gyfer cerbydau hacni fel a ganlyn:

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 – Gwynedd Council hereby publish a proposed variation in hackney carriage fares as follows:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

**PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI/HACKNEY CARRIAGE FARE 2022**
yn weithredol trwy ardal y Cyngor o **1/08/2026**
*in operation throughout the area of the Council as from the* ***1/8/2026***

| Milltiroedd / Mileage | Cost |
|---|---|
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir<br>*If the distance does not exceed one mile for the whole distance* | **£4.00** |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.00** |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny<br>*For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Amser Disgwyl / Waiting Time** | |
| Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny<br>*For each period of 1 minute or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Milltiroedd - bws mini sy'n cario 5 i 8 teithiwr**<br>**Mileage – Minibus carrying 5 to 8 passengers** | |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.30** |
| **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges** | |
| 1. Am logi'r cerbyd rhwng **21:00 yr hwyr a 7:00 y.b.** unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan<br>*For hirings between* ***21:00 hrs and 7:00 a.m.*** *on any day or at any time on Bank Holidays except Christmas Day and New Year's Day* | **50% o'r cyfradd dal uchod**<br>***50% of the above rates*** |
| 2. Dydd Nadolig a Dydd Calan<br>*Christmas Day and New Year's Day* | **100% o'r cyfradd dal uchod**<br>***100% of the above rates*** |
| 3. Am bob cês a bag yn ychwanegol or un cês a gludir to allan i'r caban teithwyr<br>*For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage* | **£0.50c/p** |
| 4. Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith<br>*For each person in excess of one of the whole journey* | **£0.40c/p** |
| 5. Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod<br>*Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats* | **£1.20c/p** |
| **Nodir: Fod dim tal i'w godi am gludo Ci Tywys**<br>**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs** | **£0** |
| 6. Baeuddu'r cerbyd<br>Soiling the vehicle | **£120** |


| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd Council<br>Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices<br>Stryd y Jêl/Shirehall Street<br>Caernarfon<br>Gwynedd LL55 1SH | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department<br>Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services |


Unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad i'w wneud yn ysgrifenedig i Gyngor Gwynedd drwy e bost at trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru erbyn **DYDDIAD IW GADARNHAU** (14 diwrnod ar ol cyhoeddiad ) . Mae copi o'r rhybudd ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a gwefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru.

Any objections to the proposal must be made in writing to Gwynedd Council by e-mail to Licensing@gwynedd.llyw.cymru by the **DATE TO BE CONFIRMED** (14 days after publication). A copy of the notice is available at the Council Offices and the Council website for inspection: www.gwynedd.llyw.cymru.

**Oddi wrth:** Mark Dunning [redacted]
**Anfonwyd:** Dydd Llun, 9 Mawrth 2026 08:45
**At:** Rhian Meredith (AMG) <rhianmedimeredith@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** Increase Needed On Tacsi Fayres

Gwynedd Council

Council Offices

Shirehall Street

Caernarfon

Gwynedd LL55 1SH

To. Tacsi Licensing Department

Re: Request to Review and Increase the Minimum Taxi Fare

I am writing to ask Gwynedd Council to review the current minimum taxi fare of £3.60, which has not been increased for approximately four years. During this period, the cost of operating a taxi has risen significantly, particularly due to increases in petrol prices, vehicle maintenance costs, insurance, and general living expenses.

One of the most significant pressures on taxi drivers is the rising cost of fuel. Over the past four years, petrol prices have fluctuated considerably and at times have reached well over £1.50 per litre, compared with around £1.20 per litre or less several years ago. Even with occasional reductions, the average fuel cost remains substantially higher than when the current minimum fare was set. As fuel is one of the largest operating costs for taxi drivers, this increase has had a direct impact on profitability.

In addition to fuel, other essential expenses have also risen. Insurance premiums for taxi drivers have increased, vehicle servicing and repair costs are higher, and the price of replacement parts and tyres has gone up. Drivers must also meet licensing requirements, vehicle inspections, and other regulatory costs. These unavoidable expenses continue to rise while the minimum fare has remained unchanged.

The current minimum fare of £3.60 no longer reflects the true cost of providing a taxi service. Short journeys in particular often do not adequately cover the driver’s costs when fuel, vehicle wear, and time are taken into account. A modest increase in the minimum fare would help ensure that taxi services remain financially viable for drivers while still providing a reliable service for residents and visitors to Gwynedd.

Taxi services play an important role in the local transport network, particularly in rural areas where public transport options may be limited. Ensuring that taxi drivers can operate sustainably will help maintain this essential service for the community.

I would therefore respectfully ask Gwynedd Council to review the current tariff structure and consider increasing the minimum fare to better reflect current operating costs, particularly the increase in fuel prices over the past four years.

Thank you for taking the time to consider this request. I hope the council will recognise the financial pressures faced by taxi drivers and take appropriate action to support the sustainability of the local taxi trade.

Yours faithfully,

Mark Dunning @ Buzzy Bee Tacsi

**From:** Mark Cabs
**Sent:** Dydd Iau, 12 Mawrth 2026 11:51
**To:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Subject:** Taxi fare increase

Good morning,

For the attention of Gwynedd Council Licensing dept!!.it has now been nearly 7 years (September 2019)since we had an increase on our Taxi meter tariff and life is definitely getting harder for all Taxi drivers with every day living and with the 5% increase every year for Council Tax...Cost of fuel now exceeding extortionate prices on the forecourt!!.. National wage now £12.71 from this year 2026..I truly think it's about time that we had an increase now to cover the increasingly huge cost that we have to deal with on a daily basis.

Kind regards

Mark

Dear Chris O'Neal,
Thank you for your request and suggestions for tariffs and table of fares changes.

I am advising others in the trade to submit their opinions on this; and I am in agreement that it is timely to review our fares. I have attached above the current table of fares, which did incorporate (or partly incorporate) a few of your recommendations during the last Fares review which was consulted upon and approved by the Committee at the end of 2022.
In our conversation about this over the phone today, I did stress the importance of striking the correct balance between promoting the interests of the taxi trade with protecting the interests of the poorest in Society who may be vulnerable or do not have access to a car and are reliant on taxis for accessing essential Services.
I would welcome any further views from you or other taxi operators, and I have brought the issue of consistency up with my colleagues in the other North Wales Local Authorities.

Sincerely,

**Gwenan Mai Roberts**
Arweinydd tim Gwarchod y Cyhoedd | Public Protection Team Leader
Trwyddedu a Rheolaeth Llygredd | Licensing and Pollution control
------------------------------------------------------------------------------------------------
---
gwenanmairoberts@gwynedd.llyw.cymru | t 01758 704 020 |
trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru

------------------------------------------------------------------------------------------------
---
Cyngor Gwynedd Council | Swyddfa Ardal Dwyfor | Pwllheli | Gwynedd | LL53 5AA
------------------------------------------------------------------------------------------------
---
Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu efo fi.
*You are welcome to contact me in Welsh or English*

**Oddi wrth:** Chris O'Neal
**Anfonwyd:** Dydd Iau, 12 Mawrth 2026 23:52
**At:** licensing@anglesey.gov.uk; Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>; Jennifer M. Lewis <JenniferLewis@ynysmon.llyw.cymru>; Gwenan Mai Roberts (AMG) <gwenanmairoberts@gwynedd.llyw.cymru>
**Copi/Cc:** Dafydd Chubb
**Pwnc:** proposed tariff changes.

Dear Gwynedd Licensing Department,
Dear Anglesey Licensing Department,

Please accept this letter as a formal proposal to amend the current taxi tariff structure within your respective counties.

The proposed amendments are intended to help alleviate some of the financial pressures currently faced by taxi operators, including increases in licensing fees, fuel costs, insurance,

and general operating expenses. In addition, these revisions would help align the tariff structures across both Gwynedd and Anglesey.

The proposed revised tariffs are outlined below.

---

## Standard Tariff

**Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir**
If the distance does not exceed one mile (for the whole distance)
**£4.00** *(previously £3.60)*

**Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf**
If the distance exceeds one mile – for the first mile
**£3.40** *(previously £3.00)*

**Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny**
For each subsequent one-tenth of a mile or part thereof
**£0.35** *(previously £0.30)*

**Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny**
For each period of one minute waiting time or part thereof
**£0.40** *(previously £0.30)*

1. **Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan**
   For hirings between midnight and 7:00 a.m. on any day, or at any time on Bank Holidays (excluding Christmas Day and New Year's Day)
   **50% extra** *(unchanged)*
2. **Dydd Nadolig a Dydd Calan**
   Christmas Day and New Year's Day
   **100% extra** *(unchanged)*
3. **Am bob cês a bag yn ychwanegol neu un cês a gludir tu allan i'r caban teithwyr**
   For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment
   **£0.40** *(previously £0.30)*
4. **Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith**
   For each additional passenger beyond one for the whole journey
   **£0.40** *(previously £0.40)*
5. **Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod**
   Carriage of animals (e.g. dogs and cats)
   **£1.50** *(previously £1.20)*

   No charge shall be made for the carriage of guide dogs.

6. **Baeuddu’r cerbyd**
   Soiling the vehicle
   **£80.00** *(previously £45.00)*

---

## Proposed Tariff for 8-Seater Vehicles

*(Applicable only where 6 or more passengers are being conveyed)*

**Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir**
If the distance does not exceed one mile (for the whole distance)
**£6.00**

**Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf**
If the distance exceeds one mile – for the first mile
**£4.50**

**Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny**
For each subsequent one-tenth of a mile or part thereof
**£0.45**

**Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny**
For each period of one minute waiting time or part thereof
**£0.50**

1. **Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan**
   For hirings between midnight and 7:00 a.m. on any day, or at any time on Bank Holidays (excluding Christmas Day and New Year’s Day)
   **50% extra**
2. **Dydd Nadolig a Dydd Calan**
   Christmas Day and New Year’s Day
   **100% extra**
3. **Am bob cês a bag yn ychwanegol neu un cês a gludir tu allan i'r caban teithwyr**
   For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment
   **£0.50**
4. **Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith**
   For each additional passenger beyond one for the whole journey
   **£0.50**
5. **Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod**
   Carriage of animals (e.g. dogs and cats)
   **£2.00**

   No charge shall be made for the carriage of guide dogs.

6. **Baeuddu'r cerbyd**
   Soiling the vehicle
   **£80.00**

---

We respectfully ask the Licensing Departments to review and consider these proposals. We believe these adjustments would provide necessary support to taxi operators while maintaining fair and consistent tariffs across both counties.

Kind regards,
Christopher J Oneal

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

**PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI/HACKNEY CARRIAGE FARE 2022**
yn weithredol trwy ardal y Cyngor o **17/11/22**
*in operation throughout the area of the Council as from the* **17/11/22**

| **Milltiroedd / Mileage** | **Cost** |
|---|---|
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir<br>*If the distance does not exceed one mile for the whole distance* | **£3.60c/p** |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.00** |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny<br>*For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Amser Disgwyl / Waiting Time**<br><br>Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny<br>*For each period of 1 minute or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Milltiroedd - bws mini sy'n cario 5 i 8 teithiwr**<br>**Mileage – Minibus carrying 5 to 8 passengers**<br><br>Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.30** |
| **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges**<br><br>1. Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan<br>*For hirings between midnight and 7:00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays except Christmas Day and New Year's Day*<br><br>2. Dydd Nadolig a Dydd Calan<br>*Christmas Day and New Year's Day*<br><br>3. Am bob cês a bag yn ychwanegol or un cês a gludir to allan i'r caban teithwyr<br>*For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage*<br><br>4. Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith<br>*For each person in excess of one of the whole journey*<br><br>5. Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod<br>*Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats*<br><br>**Nodir: Fod dim tal i'w godi am gludo Ci Tywys**<br>**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs**<br><br>6. Baeuddu'r cerbyd<br>Soiling the vehicle | **60% o'r cyfradd dal uchod**<br><br>***60% of the above rates***<br><br>**100% o'r cyfradd dal uchod**<br>***100% of the above rates***<br><br>**£0.50c/p**<br><br>**£0.40c/p**<br><br>**£1.20c/p**<br><br>**£0**<br><br>**£120** |

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd Council<br>Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices<br>Stryd y Jêl/Shirehall Street<br>Caernarfon<br>Gwynedd LL55 1SH | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department<br>Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services |